**Ymateb ERS Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar Lobïo**
**Mehefin 2022**

1. Rydym yn croesawu ymgynghoriad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch lobïo. Mae lobïo neu ymgyrchu yn rhan arferol o sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio, ond dylai fod yn dryloyw bob amser. Gall tryloywder yn ein system wleidyddol sicrhau nad yw pŵer yn cael ei feddiannu gan y rhai sydd â'r pocedi dyfnaf, yn ogystal â galluogi dinasyddion i weld sut y gwneir penderfyniadau yn unol â'r nodau hyn.

## Canllawiau cyfredol ar lobïo yng Nghymru

2. Ledled y DU, dangosodd data ar bleidleisio a gomisiynwyd gan IPPR ac ERS yn 2021 bod 12 y cant o ymatebwyr yn meddwl mai lobïwyr 'sydd â'r dylanwad mwyaf dros benderfyniadau polisi cyhoeddus y mae'r llywodraeth yn eu gwneud', dwywaith cymaint â'r nifer a ddywedodd mai pleidleiswyr sydd â'r dylanwad mwyaf (chwech y cant).

3. Ar hyn o bryd, credwn nad yw'r canllawiau ar lobïo a mynediad at Aelodau'r Senedd yn mynd yn ddigon pell, gan nodi "y dylai aelodau ystyried" nifer o gamau, gan gynnwys cymryd cofnodion a nodiadau o unrhyw gyfarfod â'r rhai y maent yn eu hystyried yn lobïwyr. Mae diffyg cadw cofnodion gorfodol, a chanllawiau cryf, yn peri risg o anghysondeb rhwng aelodau wrth gasglu gwybodaeth ynghylch cyfarfodydd. O ystyried nad yw'r canllawiau ychwaith yn gofyn am gyhoeddi gwybodaeth o'r fath, mae diffyg tryloywder yn perthyn i'r canllawiau presennol, gan nad oes gan y cyhoedd unrhyw ffordd o gael mynediad at wybodaeth am unrhyw gyfarfodydd y mae eu haelodau etholedig wedi'u cynnal.

4. Hefyd, nid yw rhai sefydliadau'n ymwybodol o'r canllawiau ar hyn o bryd (gweler pwynt 20 o ymateb WCVA i'r ymgynghoriad) sy'n ei gwneud yn amhosibl cadw at y rheolau yn yr achosion hyn. Rydym yn cefnogi galwad WCVA i'r Senedd gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys lledaenu'r canllawiau'n eang ynghyd ag unrhyw newidiadau a weithredir yn sgil yr ymgynghoriad hwn.

**Cyflwyno cofrestr lobïo yng Nghymru**

5. Rydym yn cytuno â phryder WCVA nad yw'r ymgynghoriad hwn wedi gofyn a ddylid cyflwyno cofrestr lobïo ar gyfer Cymru. Mae hwn yn fwlch amlwg yng nghylch gorchwyl yr ymgynghoriad, a gallai effeithio ar yr ymatebion a ddaw i law.

6. Rydym yn credu y dylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad argymell bod cofrestr lobïo yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer y Senedd, gan ddod â Chymru'n gyfartal â gwledydd eraill y DU a gwella ar y rhai a weithredir eisoes.

7. Dylai'r gofrestr hon fod yn hawdd ei defnyddio, heb fod yn feichus i sefydliadau gydymffurfio â hi, gan sicrhau nad yw ei chwblhau yn gosod baich ychwanegol ar fudiadau.

8. Mae angen eglurhad ynghylch beth yw 'lobïo', gan na fydd llawer o fudiadau â staff sy'n cyflawni dyletswyddau ymgyrchu yn uniaethu â'r term hwn. Mae angen diffiniad clir o lobïo/lobïwr (y bydd y gofrestr yn eu cynnwys) ynghyd â phwy a beth ddylai gael eu heithrio o'r diffiniad hwn.

9. Un ffordd o ddiffinio lobïwr yw trwy'r gweithgaredd yn hytrach na theitl y swydd. Mae Cymdeithas yr Ymgynghorwyr Gwleidyddol Proffesiynol yn diffinio gweithgaredd lobïo fel:
   (a) dylanwadu ar lywodraeth, neu
   (b) cynghori eraill ynghylch sut i ddylanwadu ar lywodraeth.

   Ac mae'n eithrio:
   (a) unrhyw beth a wneir mewn ymateb i orchymyn llys neu gydymffurfio â gorchymyn o'r fath
   (b) unrhyw beth a wneir at ddiben cydymffurfio â gofyniad o dan ddeddfiad
   (c) ymateb cyhoeddus i wahoddiad i gyflwyno gwybodaeth neu dystiolaeth
   (d) ymateb cyhoeddus i ymgynghoriad gan lywodraeth
   (e) ymateb ffurfiol i wahoddiad cyhoeddus i dendro
   (f) unrhyw beth a wneir gan berson sy'n gweithredu mewn rôl swyddogol ar ran sefydliad sy'n perthyn i'r llywodraeth
   (g) unigolyn sy'n cyflwyno sylwadau ar ei ran ei hun yn unig.

   Mae'r Gynghrair ar gyfer Tryloywder Lobïo (ALT) yn diffinio lobïwr fel unrhyw un sy'n cael ei dalu i wneud y canlynol:
   - Trefnu neu hwyluso cysylltiad â swyddogion.
   - Cyfathrebu â swyddogion i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth, rheoleiddio, neu bolisi'r llywodraeth, ac ar gyfer contractau a grantiau'r llywodraeth.
   - Gwaith sy'n cefnogi'r uchod

   Maent yn eithrio lobïo gan aelod o'r cyhoedd sy'n ddi-dâl a lobïo AS gan etholwr. Maen nhw hefyd yn galw ar i fusnesau ac elusennau llai gael eu heithrio.

10. Mae yna gonsensws cyffredinol y dylai cofrestr lobïo go iawn nodi pwy, beth a faint. Dylai ddechrau o'r egwyddor o'r hyn y mae angen i'r cyhoedd ei wybod a pha wybodaeth a fyddai'n darparu tryloywder priodol ynghylch gweithgarwch.

11. Mae gwersi i'w dysgu o gofrestr y DU a'r gofrestr sydd ar waith yn yr Alban ar hyn o bryd. Yn yr Alban bu galwadau am gryfhau'r Gofrestr Lobio honno yn sgil y ffaith bod nifer o fylchau ynddi. Mae Cynghrair yr Alban ar gyfer Tryloywder Lobïo (SALT), y mae ERS yn aelod ohoni, wedi amlygu pryderon penodol o amgylch cyfarfodydd ar-lein, gan ddweud "O dan y rheolau presennol, byddai'n rhaid datgan galwadau fideo gan lobïwyr fel lobïo. Ond os ydyn nhw'n diffodd y camera, yn sydyn mae'n amhosib gwneud cofnod o'r cyswllt, a byddai'n 'gwbl guddiedig o olwg pleidleiswyr'."

    Maent wedi amlygu tri maes y mae angen eu gwella;

    - Dileu'r eithriad ar gyfer ffurfiau ysgrifenedig a llafar o gyfathrebu o'r diffiniad o lobïo rheoleiddiedig
    - Ei gwneud yn ofynnol i lobïwyr masnachol ddatgelu neu amcangyfrif gwariant ar ymgyrchoedd
    - Cynyddu amlder adrodd am gyfarfodydd i ddarparu gwybodaeth fwy amserol ar weithgareddau lobïo (ar hyn o bryd dim ond dwywaith y flwyddyn y mae'n rhaid adrodd ar weithgareddau lobïo)

12. Mae'r ALT wedi awgrymu o'r blaen y gallai'r Comisiwn Etholiadol gynnal cofrestr y DU, gan ei fod yn ymgymryd â gweithgareddau tebyg ar gyfer pleidiau gwleidyddol. Mae'n werth ystyried a allai'r Comisiwn gynnal cofrestr ar gyfer Cymru.

13. Dylid cynnal ymgynghoriad pellach ar sut y byddai cofrestr lobïo yn cael ei gweithredu er mwyn sicrhau ei bod yn ddefnyddiol i bob sector; byddai hyn hefyd yn gweithredu fel ymarfer cychwynnol i godi ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau yn y system yng Nghymru.

14. Dylai'r gofrestr fod yn hygyrch ac yn hawdd ei dehongli gan y cyhoedd, h.y. yn cael ei chynnal ar-lein, yn hawdd dod o hyd iddi ar wefan gyhoeddus ac yn hawdd i'w chwilio trwy fetadata allweddol.

**Grwpiau Traws-Bleidiol**

15. Mae grwpiau trawsbleidiol (GTB) yn darparu mecanwaith defnyddiol ar gyfer mewnbwn cymdeithasol ehangach ar faterion penodol ac yn caniatáu trafodaeth fanwl.

16. Fodd bynnag, er gwaethaf eu natur agored, mae yna bob amser welliannau i'w gwneud o ran hygyrchedd GTB. Byddai cynnwys manylion cyswllt yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer pob grŵp ar wefan y Senedd yn ei gwneud yn haws gwneud ymholiadau ynghylch ymuno â chyfarfodydd.

17. Dylid cymryd camau hefyd i sicrhau bod sefydliadau llai, gan gynnwys mudiadau cymunedol, yn cael eu cynnwys a'u cefnogi i fynychu GTB perthnasol er mwyn atal GTB rhag dod yn gasgliadau o'r 'un hen wynebau'. Byddai hyn yn meithrin mwy o gynhwysiant ac yn helpu i sicrhau bod y Senedd yn clywed lleisiau o bob cwr o Gymru.